



Ffôn : 01766 810 626

Fax : 01766 810 002

E.Bost : [DonnaRoberts@gwynedd.gov.uk](mailto:DonnaRoberts@gwynedd.gov.uk)

Pennaeth: Mrs Donna R. Roberts

Y Ffôr,  
Pwllheli,  
Gwynedd.  
LL53 6UP

Mis Ebrill, 2015

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr;

Ar ddechrau tymor newydd rydym yn dymuno'n dda i'r plant i gyd ac yn edrych ymlaen at dymor gweithgar a hapus.

Thema y tymor fydd - **Byw yn Iach**

Hoffwn eich atgoffa o ychydig bethau ar gychwyn y tymor newydd-  
**Trefn ymweld**

Mae gennym bolisi drws agored ac mae croeso i chi ymweld â'r ysgol unrhyw amser ond gofynnwn yn garedig i chwi wneud apwyntiad pan fydd yn gyfleus.

Rydym i gyd yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol.

**Cychwyn Diwrnod**

Bydd drysau'r ysgol yn agor am 9:00 i dderbyn y plant.

**Absenoldebau**

Gofynnwn yn garedig i chwi ffonio'r ysgol ar fore cyntaf absenoldeb eich plentyn, yn ogystal bydd angen llythyr ar ddiwedd y cyfnod yn rhoi rheswm am yr absenoldeb. Byddwn yn cysylltu â'r cartref os na fyddwn wedi derbyn rheswm am yr absenoldeb ac oherwydd rheolau statudol os na fydd rheswm digonol yn cael ei dderbyn gan yr ysgol byddwn yn gorfod nodi eich plentyn yn absennol heb awdurdod.

**Gwyliau Teuluol yn ystod Tymor Ysgol**

Mae cyfraith gwlad yn nodi nad oes ganddo'ch yr hawl i fynd a'ch plentyn ar wyliau yn ystod tymor ysgol. Mae'r Awdurdod Addysg yn gweithio gydag ysgolion i leihau'r nifer o ddiwrnodau a gollir gan ddisgyblion oherwydd gwyliau yn ystod tymor ysgol a gall ysgol wrthod eich cais i dynnu eich plentyn o'r ysgol.

Os dymunwch dynnu eich plentyn o'r ysgol yn ystod tymor ysgol mae'n ofynnol i chwi lenwi ffurflen sydd ar gael yn yr ysgol o leiaf mis cyn y gwyliau. Gall ysgol ganiatáu absenoldeb **o hyd at 5 diwrnod** yn unol ag arweiniad yr Awdurdod

Addysg oni bai fod amgylchiadau arbennig.

Mae rhai amseroedd o'r flwyddyn lle y bydd effaith colli ysgol yn fwy sylweddol.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfnodau asesu, cychwyn ysgol newydd neu gychwyn tymor ysgol newydd. Wrth benderfynu caniatáu neu wrthod eich cais am wyliau awdurdodedig bydd yr ysgol yn ystyried y ffactorau yma.

Os bydd yr ysgol yn gwrthod eich cais ac eich bod yn parhau i dynnu eich plentyn o'r ysgol bydd yn cael ei drin fel absenoldeb anawdurdodedig.

### **Cinio**

Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £2.05 y diwrnod.

Cesglir arian cinio ar ddydd Llun. Rhowch yr arian mewn amlen gyda enw'r plentyn yn glir arno. Diolch.

**Siop ffrwythau** - bydd ffrwythau yn cael eu gwerthu yn yr ysgol am 20c y ffrwyth. Mae'r siop yn cael ei redeg gan y Cyngor Ysgol ac unrhyw elw yn cael ei wario ar adnoddau er budd y plant.

### **Gwisg Ysgol**

Mae gwisg yr ysgol yn cynnwys siwmpwr lliw glas a chrys chwys glas golau. A fusech gystal ag ysgrifennu enw eich plentyn ar bob dilledyn. Croeso i chwi archebu gwisg drwy'r ysgrifenyddes.

### **Trefn Gwyno**

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethol ysgolion a'r Awdurdod yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafod â'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, felly bydd Corff Llywodraethol yr ysgol yn disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno cŵyn ffurfiol.

### **Dyddiadau i'w cofio**

- Gwyliau hanner tymor- **Mai 25-29**
- Hyfforddiant mewn swydd - **Mehefin 1af (Ysgol ar gau i ddisgyblion)**  
**Mehefin 19 (Ysgol ar gau i ddisgyblion)**
- Noson Gwricwlaidd i rieni- cyflwyniad ar Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a agweddau eraill o Gwricwlwm Hafod Lon- **Mai 19, 4-6pm**
- Wythnos rhieni (i weld gwaith)- **6-10fed o Orffennaf**

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Mrs Donna R. Roberts (Pennaeth)